| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Ebrill 2018 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Cynghorydd B Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio Strategol |
| **Teitl:** | **Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – Mabwysiadu Dogfen Derfynol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i Aelodau am ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus 10 wythnos ar y Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol drafft: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE). Mae'n argymell mabwysiadu yn unol â'r diwygiadau arfaethedig i destun y ddogfen.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Lluniwyd yr adroddiad hwn oherwydd bod angen gwneud penderfyniad ynglŷn â mabwysiadu'r ddogfen derfynol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Tachwedd 2017 ac Ionawr 2018 am gyfnod o 10 wythnos. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fabwysiadu'r ddogfen, y gellir trin Canllawiau Cynllunio Atodol fel ystyriaethau cynllunio perthnasol pan fo Awdurdodau Cynllunio Lleol, Llywodraeth Cymru ac Arolygwyr Cynllunio yn pennu ceisiadau cynllunio neu apeliadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2 Bod Aelodau yn mabwysiadu'r ddogfen CCA ddrafft 'Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE)' (Atodiad 2), yn unol â'r newidiadau arfaethedig fel y nodir yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad 3).

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Os yw'r Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn, bydd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fo Aelodau yn gwneud penderfyniadau cynllunio o fewn yr AHNE neu a allai effeithio ar leoliad yr AHNE. Dylid ei ddarllen ar y cyd â Chynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl), polisi GEH 2 'Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol' a Chanllawiau Cynllunio Atodol eraill y Cyngor.

4.2 Dynodir AHNE oherwydd eu tirlun hardd a’r angen i warchod a gwella eu prydferthwch naturiol ar gyfer mwynhad cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Dynodwyd Bryniau Clwyd yn AHNE ym 1985 ac yn 2011 estynnwyd yr ardal i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy. Mae’n un o bump yng Nghymru ac yn unol â’r polisi cynllunio cenedlaethol mae’n “rhaid cynnig y statws uchaf i ddiogelu’r ardal rhag datblygiadau amhriodol” sydd yr un fath â’r statws a roddir i Barciau Cenedlaethol.

4.3 Mae’r canllaw hwn wedi’i anelu’n bennaf at unigolion sy’n cynnig datblygiad newydd a’r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy’n gysylltiedig â rheoli'r AHNE. Y bwriad yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr AHNE ac, wrth wneud hynny, codi safon datblygiadau newydd a thirlunio. Mae’n darparu egwyddorion cynllunio cyffredinol y dylid eu dilyn i gynorthwyo cynigion datblygiad newydd. Ceir arweiniad pellach ar pryd mae angen caniatâd cynllunio yn y ddogfen CCA ddrafft, Atodiad 3.

4.4 Lluniwyd y ddogfen ar gyfer y tri awdurdod lleol o fewn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, hynny yw Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Wrecsam; gyda chyngor gan Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE a Chyfoeth Naturiol Cymru.

4.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o 20 Tachwedd 2017 tan 29 Ionawr 2018 am gyfnod o 10 wythnos, a oedd bythefnos yn hirach na’r cyfnod ymgynghori arferol o 8 wythnos. Ystyriwyd yn briodol i ganiatáu estyniad dros y Nadolig. Roedd hyn yn caniatáu amser ychwanegol i unigolion a busnesau gyflwyno eu safbwyntiau a’u sylwadau erbyn y dyddiad cau.

4.6 Roedd Swyddogion Cynllunio a chynrychiolwyr o AHNE ar gael i ateb cwestiynau gan y cyhoedd a busnesau preifat yn ystod dwy sesiwn galw heibio. Cynhaliwyd y sesiynau hyn ym Mharc Gwledig Loggerheads ar 6 Rhagfyr 2017 a 18 Ionawr 2018.

4.7 Roedd y ddogfen ddrafft ar gael i’w gweld ar wefannau’r tri awdurdod lleol. Roedd copïau caled hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a siopau un alwad Sir Ddinbych, yn Neuadd Y Sir yn Yr Wyddgrug ac yn Galw yn Wrecsam.

4.8 Gwahoddwyd sylwadau ysgrifenedig a gofynnwyd i unigolion eu hanfon at Gyngor Sir y Fflint a oedd yn cydlynu’r ymgynghoriad ar ran y tri Awdurdod Cynllunio Lleol. Roedd defnyddio pwynt cyswllt sengl o gymorth i’r cyhoedd oherwydd dim ond unwaith oedd rhaid iddynt gyflwyno eu sylwadau i un o’r tri awdurdod. Er hyn, roedd y llythyr ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych lle'r oedd Swyddogion cynllunio yn delio ag ymholiadau yn ymwneud yn benodol â’r ardal sirol.

4.9 Er mwyn gallu nodi'r materion a godwyd a chyfeirio atynt, cafodd sylwadau unigol (ar bapur cynllunio) eu hisrannu i sylwadau unigol. Mae modd dod o hyd i fanylion yn yr Adroddiad Ymgynghori sydd ynghlwm (Atodiad 3). Yn unol â hynny, mae nifer y sylwadau (41, gan gynnwys cynnig y Swyddogion) yn uwch na nifer y sylwadau ar bapur cynllunio (15). Ni dderbyniwyd unrhyw un o’r sylwadau a gyflwynwyd yn Gymraeg.

4.10 Nid oedd unrhyw un o’r sylwadau a gyflwynwyd yn gwrthwynebu’r cynnwys na’r testun arfaethedig ond fe awgrymwyd newidiadau gwerthfawr i wella pwrpas y CCA. Amlygwyd dau bwnc mewn mwy nag un sylw: Llygredd golau ac ystyriaethau dylunio

ehangach. Caiff y rhain eu trafod a darperir ymateb drafft y Cyngor yn yr Adroddiad Ymgynghori sydd ynghlwm (Atodiad 3).

4.11 Dangosir y newidiadau arfaethedig fel testun a amlygwyd neu ~~linell drwodd~~ yn y ddogfen CCA ddrafft sydd ynghlwm (Atodiad 2). Gellir cael copïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy gysylltu â'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai yn Ninbych drwy ffonio: 01824 706916 neu drwy anfon e-bost: planningpolicy@denbighshire.gov.uk.

4.12 Bydd y ddogfen yn destun dyluniad terfynol wedi iddi gael ei mabwysiadu gan y Cyngor. Fel y CCA 'Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte' y bwriad yw gweithredu CCA sydd â chynnwys a dyluniad tebyg yn y tri awdurdod cynllunio lleol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022: 'Gweithio Gyda'n Gilydd Er Lles Dyfodol Sir Ddinbych'. Bydd y CCA mabwysiedig yn cefnogi ymdrechion y Cyngor i godi proffil '...y sir fel lleoliad i ymweld ag o, er mwyn manteisio ar botensial economaidd Sir Ddinbych' fel y nodir o dan y pennawd 'Amgylchedd - Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd. Os yw darpar ymgeiswyr ar gyfer datblygiad newydd yn llwyr ystyried cynnwys y CCA, mae'n cyfrannu'n benodol at 'gynnydd yng ngwerth gwariant twristiaeth yn y sir.'

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r ddogfen CCA yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y Tîm Rheoli Datblygu yn elwa o'r ddogfen wrth ddarparu ein cwsmeriaid â chanllawiau cynllunio ar gynigion o fewn neu'n gyfagos at yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les wedi dangos y bydd y Canllaw Cynllunio Atodol drafft yn cynorthwyo i wireddu'r saith amcan lles mewn modd niwtral neu gadarnhaol. Nid yw'r saith yn berthnasol oherwydd natur y ddogfen, y cynnwys a'r gynulleidfa gyfyngedig a phenodol – gweithwyr proffesiynol ym maes cynllunio a darpar ymgeiswyr. Rhaid hefyd cadw mewn cof bod y Canllaw Cynllunio Atodol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ond nid yw'n bolisi lleol. Dylid ymdrin ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol negyddol, os ydynt yn ymddangos yn ddibynnol ar weithrediad, drwy ddeddfwriaeth a pholisïau cynllunio. Bydd angen ailymweld â'r Asesiad o'r Effaith ar Les pan fo'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi dod i ben a'r newidiadau wedi'u gwneud i'r ddogfen ddrafft. Sylwch: Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus bellach wedi dod i ben ac mae cynnwys y ddogfen wedi'i ailasesu a'i ddiwygio yn unol â hynny.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

8.1 Nid oedd ymgynghoriad â'r Pwyllgor Archwilio yn ofynnol ar gyfer yr eitem hon. Paratowyd y ddogfen ar y cyd gan Swyddogion o Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a Chydbwyllgor Ymgynghorol AHNE.

Mae Aelodau wedi trafod y ddogfen ddrafft wrth gymeradwyo dechrau’r ymgynghoriad cyhoeddus ar 11 Hydref 2017.

8.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o 20 Tachwedd 2017 tan 29 Ionawr 2018 am gyfnod o 10 wythnos. Yn Sir Ddinbych, ymgynghorwyd â’r holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghyd â rhanddeiliaid allweddol ac unigolion a oedd wedi cofrestru ar gronfa ddata’r Cynllun Datblygu Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ragwelir y bydd mabwysiadu’r ddogfen CCA yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Os bydd unrhyw gostau yn codi bydd angen eu cynnwys o fewn y cyllidebau refeniw presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn absenoldeb canllaw cynllunio cyfredol mae perygl na fydd y Cyngor yn gallu darparu cyngor cynhwysfawr i'w gwsmeriaid ynglŷn â chynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith andwyol ar yr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)